# Ysgol Pen Barras

**"Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg"**

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych
LL15 1QQ

Ffôn: 01824 704129
e-bost : pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth : Mr Dyfan Mael Phillips

04/09/24
Annwyl Rieni,

Hoffwn yn gyntaf, ar ddechrau tymor newydd, estyn croeso cynnes yn ôl i bawb i Ysgol Pen Barras ar gyfer flwyddyn academaidd 2024-25. Braf fydd cael croesawu'r plant yn ôl ynghyd a chroesawu 32 o blant bach meithrin newydd i'n plith.
Fy mraint fel pennaeth newydd ein hysgol fydd cael cydweithio â staff a disgyblion arbennig a sicrhau fod pob plentyn yn hapus ac yn cael y cyfleodd gorau i lwyddo.

Rwyf yn grediniol mai ein rôl fel athrawon a staff ysgolion sydd ynghyd a'r swyddi gorau sydd ar gael- cael siapio, dylanwadu a chefnogi pobl ifanc i fod yn ddysgwyr medrus, a chwilfrydig. Mae pawb yn cofio athrawon da- felly mae'r cyfrifoldeb yn fawr ac yn fraint o'r mwyaf. Edrychaf ymlaen yn arw at gael cydweithio efo'r disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yn enw da Ysgol Pen Barras.
Ar ddechrau'r tymor newydd, hoffwn rannu ychydig o wybodaeth ysgol a'ch diweddaru am weithdrefnau'r ysgol.

**Mynediad Safle-** Cofiwch, bydd giatiau'r ysgol yn agor yn y boreau am 8.45yb gyda'r gloch yn canu am 8.50yb i'r Cyfnod Sylfaen a 9.00yb i'r Adran Iau. Cofiwch- giât ger maes parcio'r ysgol ac nid y 'giât top'.
A fyddwch ogystal â sicrhau fod eich plentyn/plant yn cyrraedd yn brydlon yn y boreau os gwelwch yn dda.

**Amseroedd agor/cau**- Cofiwch, mae plant y Cyfnod Sylfaen yn gorffen ysgol bob dydd am 3.05yp a disgyblion yr Adran Iau (Blynyddoedd 3,4,5,6) yn gorffen am 3.15yp.

**Cyfathrebu a rhieni-** Fel y gwyddoch, mae gennym App 'Ysgol Pen Barras' sydd ar gael i'w lawrlwytho ar eich dyfeisiau electroneg. Yno, cewch gylchlythyrau ysgol a chysylltiadau amrywiol. Rydym hefyd yn defnyddio Trydar i rannu newyddion a llwyddiannau diweddaraf yr ysgol.
**Newydd- Rydym am lansio tudalen newydd swyddogol 'Facebook' Ysgol Pen Barras.
Byddwn yn rhannu newyddion a chylchlythyrau ar y fforwm yma hefyd. **Cofiwch ymuno a'r dudalen.**

**Gwefan Ysgol-** Mae gennym wefan ysgol- www.ysgolpenbarras.cymru <http://www.ysgolpenbarras.cymru>.
Byddwn yn edrych i ail ddatblygu'r gwefan yn ystod y tymor. Os oes unrhyw rieni o blith cymuned yr ysgol efo cefndir ac arbenigedd o ddylunio gwefannau tebyg, mae croeso chwi gysylltu â Mr Phillips am sgwrs.

**Clybiau allgyrsiol ar ôl ysgol-** Byddwn yn rhannu yn fuan iawn restr o glybiau allgyrsiol ar gyfer y tymor- manylion i ddilyn.

**Gwisg Ysgol-** Mae'n bwysig fod plant yn dilyn canllawiau'r ysgol o ran gwisg ysgol a gwisg ymarfer corff. Gwelir manylion ar wefan / ap yr ysgol.
Rydym am barhau a'r arferiad o blant yn dod i'r ysgol yn eu gwisg ymarfer corff ar ddiwrnod penodol ymarfer corff. Trefniadau fel y ganlyn:

Dydd Llun- Meithrin a Derbyn
Dydd Mawrth- Blwyddyn 5 a 6
Dydd Iau- Blwyddyn 3 a 4
Dydd Iau- Blwyddyn 1 a 2

**Labelu dillad/ eiddo personol-** Cofiwch labelu dillad ysgol eich plant yn glir. Mae'n syndod faint o eiddo coll sydd yma heb ei labelu ers diwedd tymor diwethaf.

**Absenoldebau-** Cofiwch gysylltu â'r swyddfa yn brydlon drwy alwad ffôn neu e-bost os yw eich plentyn yn sâl.

**Meddyginiaeth-** Os oes angen meddyginiaeth yn yr ysgol ar eich plentyn, a fyddwch gystal â chwblhau'r daflen swyddogol meddyginiaeth sydd ar gael o'r dderbynfa.

**Ffurflenni Mynediad-** Cofiwch- mae rhaid gwneud cais am lefydd i'r dosbarth Methrin, dosbarth Derbyn ac i flwyddyn 7 / Ysgol Uwchradd ar gyfer Medi 2025. Mae'r drefn yn newid yn Sir Ddinbych eleni.
Bydd rhaid i rieni a gofalwyr gofrestru am Gyfrif Addysg Unigol bersonol. Gallwch greu cyfrif ar lein cyn i'r cylch ceisiadau agor.
Ceisiadau ar gyfer dosbarth Meithrin 2025-6- Ar agor o Fedi 23ain 2024 ymlaen.
Ceisiadau ar gyfer dosbarth Derbyn 2025-6- Ar agor o Fedi 23ain 2024 ymlaen.
Ceisiadau ar gyfer Blwyddyn 7 Ysgol Uwchradd- Ar agor nawr. Dyddiad cau ceisiadau- Tachwedd 4ydd, 2024.
Am ragor o fanylion, dilynwch y ddolen ganlynol;
https://www.denbighshire.gov.uk/en/education-and-schools/school-admissions/school-admissions.aspx

**Polisi Cwynion**- Os ydych yn anhapus efo unrhyw fater yn gysylltiedig â'r ysgol cofiwch gysylltu gan ddilyn y prosesau cywir. Gallwch gysylltu yn y lle cyntaf, os yn berthnasol efo'r athro dosbarth, yna'r arweinydd Uned ac yna gyda'r pennaeth os nad yw'r sefyllfa wedi datrys. Yna, gallwch gyfeirio'r mater at sylw Cadeirydd y Corff Llywodraethol. Byddwn yn rhannu'r polisi unwaith eto efo rhieni erbyn diwedd yr wythnos.

**Y GYMRAEG-** Mae'n hynod bwysig i ni yma yn Ysgol Pen Barras i hyrwyddo Cymreictod yr ysgol- boed yn ieithyddol ac yn ddiwylliannol. Mae ennyn balchder disgyblion yn ein hiaith yn un o gonglfeini gwerthoedd a gweledigaeth yr ysgol. Mae sicrhau defnydd y Gymraeg ein disgyblion yn gymdeithasol tu mewn a thu allan yr ysgol yn bwysig!
Taer erfyniwn i bawb sydd medru, i ddefnyddio eu Cymraeg gyda'u plant. Dwy iaith ddyfodol ddisglair yn wir!

Gan obeithio bydd yr holl blant yn ymgartrefu'n ôl yn ddibryder ac yn hyderus i'r ysgol. Rydym yn falch iawn o groesawu pawb yn ôl.

'Cariad at iaith, gwaith a gwên,
a lywia ysgol lawen'.

Yn gywir,
*Dyfan Phillips*
PENNAETH

YSGOL PEN BARRAS

**YSGOL PEN BARRAS- Dyddiadau allweddol y tymor (Medi- Rhagfyr 2024)**

| Dyddiad | Gweithgaredd: |
|---|---|
| 04.09.24 | Ysgol yn ail agor |
| 16.09.24 | Dathliadau dydd Owain Glyndŵr- Caiff ddisgyblion dod i'r ysgol mewn gwisg tywysog / tywysoges / gwisg Gymreig. |
| 23.09.24 | **Noson anwytho / Galw mewn anffurfiol i rieni- 3.30-5.00yp**<br>Cyfle i rieni alw mewn i ddosbarthiadau eu plant i weld y dosbarth, sgwrsio efo athro dosbarth. Cyfarfod anffurfiol- dim angen archebu amser o flaen llaw. |
| 27.09.24 | **Bore Coffi MacMillan- Neuadd Ysgol- 9.15-10.30 i rieni.**<br>Gall rieni ddod i gefnogi'r bore coffi- gwerthfawrogwn unrhyw deisennau / cacennau / bisgedi yn rhoddion gan y plant. Gall plant ddod ac ychydig o arian poced hefyd i brynu cacen/teisen yn ystod y dydd. Holl elw tuag at Elusen Cancr MacMillan. |
| 23.10.24 | Gwasanaeth Diolchgarwch 9.45am. (Y bwriad yw i blant yr ysgol ymweld ag un o eglwysi'r dref am wasanaeth ac anerchiad o ddiolchgarwch) |
| 25.10.24 | Ysgol yn cau ar gyfer hanner tymor |
| 04.11.24 | Ysgol yn ail agor i bawb |
| Wythnos Tachwedd 18-21 | Nosweithiau Agored i rieni |
| 28.11.24 | Ffair Nadolig y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon- Manylion i ddilyn |
| 10.12.24 | Gwasanaeth Carolau'r Uned dan 9- (Blwyddyn 3 a 4)- 1.30yp a 6yh<br>Manylion i ddilyn |
| 11.12.24 | Sioe Nadolig yr Uned dan 7 (Blwyddyn 1 a 2)- 2yp a 6yh<br>Manylion i ddilyn |
| 12.12.24 | Gwasanaeth Carolau'r Uned dan 5 (Meithrin a Derbyn)- 9.45yb a 4.30yp<br>Diwrnod Siwmperi Nadolig- er budd elusen Achub y Plant.<br>Cinio Nadolig Ysgol Pen Barras |
| 17.12.24 | Sioe Nadolig yr Uned dan 12 (Blwyddyn 5 a 6)- 2yp a 6yh |
| 20.12.24 | Diwedd y tymor |
| 06.01.25 | Hyfforddiant mewn swydd i staff |
| 07.01.25 | Ysgol yn ail agor i bawb |

# Ysgol Pen Barras

**“Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg”**

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych
LL15 1QQ

Ffôn: 01824 704129
e-bost : pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth : Mr Dyfan Mael Phillips

*04/09/24*

*Dear Parents,*

*A warm welcome back to everyone to Ysgol Pen Barras for the start of the new 2024-25 academic term. It has been lovely seeing the smiles on the childrens faces as they return to school today. We also look forward to welcoming our new class of nursery pupils (32) who will also be beginning this term.*

*It will be my privilege as head teacher to work with such committed and enthusiastic staff to ensure we offer each child the best learning environment to grow and thrive through the medium of Welsh.*

*Teaching undoubtedly is one of the greatest vocations in life. The opportunity to shape, influence and support our young people in the quest to be enthusiastic and curious learners. Everyone remembers their favourite teacher. This brings great responsibility and reward.*

*I look forward to working in partnership with pupils, staff, parents, governors and the wider Ysgol Pen Barras community.*

*I would like to share some information about school procedures.*

***School Site-*** *Remember, the school gates will open in the morning at 8.45am with the bell ringing for Foundation Phase at 8.50am and for the Juniors/KS2 at 9.00am. Note- The gate that is used is situated at the front of the school as you enter from the main school car park. Please ensure that your children arrive promptly and on time. The end of the school day is 3.05pm for Foundation Phase and 3:15pm for Juniors/KS2.*

***Communication with Parents-*** *as you are aware, we have the Ysgol Pen Barras school app which can be downloaded for free from most app stores. The school app will allow parents to see latest school information, school news letters and arrangements.*
*We also have a Twitter Account (X) which is a successful platform to share news and latest school information.*
***Note! Facebook- We will also be using a new Facebook account as an additional platform to share school news and information. Remember to follow our Page for latest information.*

***School Website-*** *Our school website www.ysgolpenbarras.cymru <http://www.ysgolpenbarras.cymru>*

*We do intend to update the school website later during the term. If any parents have links / expertise in the field of web-design, do not hesitate in contacting myself. Any ideas would be gratefully accepted.*

***After school extra curricular clubs-*** *A programme of after school clubs available to pupils will be shared with parents later this week. (Details to follow).*

***School Uniform-*** *At the start of the new term, it is important that pupils follow the correct dress and uniform code here at Ysgol Pen Barras. Information can be found on the school app or on the school website.*
*We will continue with the arrangement for P.E that the pupils can come to school on their designated P.E day in their P.E kit. Timetable as follows....*

*Monday- Nursery and Reception*
*Tuesday- Years 5 and 6*
*Thursday- Years 3 and 4*
*Thursday- Years 1 and 2*

***Names on School Clothes-*** *Please remember to make sure your child's name is on their school clothes items. We have a mountain of school uniform which is in the lost property here at school, and majority of items are unlabelled.*

***Sickness Absence-*** *If your child is unwell or ill, please inform the school as soon as possible via telephone call or email.*

***Administration of Medicines-*** *If your child requires medicine whilst at school, parents are asked to complete the relevant medicine consent form which can be provided at the school reception.*

***Denbighshire Admission Forms-*** *If your child is moving to either secondary school in September 2025 or to the Reception or Nursery class here at Pen Barras, parents will be required to follow the Denbighshire Admission Process.*
*The Process has changed this year in that parents will need an Education Self Service account. Parents may create their account before an application period opens.*

*2025-26 Nursery class applications- open from September 23rd onwards.*
*2025-26 Reception class applications- open from September 23rd onwards.*
*Year 7 (Secondary admission)- open now and closing date, November 4th, 2024.*

*Please follow the link for further details.*
*https://www.denbighshire.gov.uk/en/education-and-schools/school-admissions/school-admissions.aspx*

***Complaints Policy-*** *If parents are unhappy and have any complaints in relation to school matters, please ensure you follow the correct procedures. First port of call for dealing with complaints should be the class teacher (if applicable). If not resolved, the complaint should be passed onto the Unit leader, and then, if not fully resolved, to be referred to the head teacher. Should an issue continue to be unresolved, the next step is to refer to the Chair of the Governing Body at Ysgol Pen Barras. An electronic copy of the Complaints Policy will be forwarded onto parents later this term.*

***<u>The Welsh Language-</u>*** *The cornerstone and one of the key values here at Ysgol Pen Barras. As our motto states, 'to work with a smile in the song of the Welsh language' – we pride ourselves in instilling in our pupils the magic, the wonder and the privilege of using our Welsh language. For the language to thrive, we would like full co-operation from all our families. If parents have any Welsh language ability, be it limited, or learning- please use it with your children. We are all role models to our children, and if they see parents using the language it will undoubtedly inspire them further with the language. Thank you for your anticipated support.*

*I sincerely hope that all the pupils settle well back into school. Wishing you all a good term and good health.*

*'Cariad at iaith, gwaith a gwên,*
*a lywia ysgol lawen'.*

*Kind regards,*
Dyfan Phillips
*HEAD TEACHER*
*YSGOL PEN BARRAS*

**_Ysgol Pen Barras – Key dates_ for the term- Sept-December 2024**

| ***Date:*** | ***Activity:*** |
|---|---|
| *04.09.24* | *School re-opens.* |
| *16.09.24* | *Owain Glyndwr Day Celebrations- Pupils may come to school in Prince/Princess costume or Welsh costume.* |
| *23.09.24* | ***Parents Open/ drop in session- 3.30-5.00pm*** *An informal opportunity for parents to come to school to see their child's class and meet with the class teacher informally. No scheduled time as such, and no booking required.* |
| *27.09.24* | ***MacMillan Coffee Morning- school hall- 9.15-10.30am for parents*** *Parents are invited to come to school and enjoy a 'paned and a cacen' socially with other families. Any donations of cakes, biscuits would be gratefully accepted. Pupils may also bring some money to buy from the stalls during the day.* |
| *23.10.24* | *Harvest Thanksgiving Service 9.45am. (The aim is for pupils to walk to a local church and take part in a Service) Details to follow* |
| *25.10.24* | *School closes for half term break* |
| *04.11.24* | *School re-opens for all.* |
| *November 18th-21st* | *Open Evenings for Parents* |
| *28.11.24* | *PTA Christmas Fayre- Details to follow* |
| *10.12.24* | *Under 9 Unit Christmas Carol Service- (Years 3 and 4)- 1.30pm and 6pm Details to follow* |
| *11.12.24* | *Under 7 Unit Christmas Show (Years 1 and 2)- 2pm and 6pm Details to follow* |
| *12.12.24* | *Under 5 Unit Christmas Carol Service (Nursery and Reception)- 9.45am and 4.30pm Christmas Jumper Day in aid of 'Save the Children' Appeal Ysgol Pen Barras Christmas lunch* |
| *17.12.24* | *Under 12 Unit Christmas Show (Years 5 and 6 )- 2pm and 6pm* |
| *20.12.24* | *End of term* |
| *06.01.25* | *Staff Training Day* |
| *07.01.25* | *School re-opens for all* |